Environment Agency

## About this consultation

# TA5 1UD, NNB Generation Company (HPC) Limited: environmental permit consultation

**The aim of this consultation is to ask whether you have any comments relevant to the permit application.**

We want to make the best decision when permitting. Listening to the views of others helps us to take account of concerns, or local environmental factors, that we may not be otherwise aware of.

We’ve received an application to vary a permit from NNB Generation Company (HPC) Limited. We are seeking comments on this application. This briefing note will tell you more about the changes that the applicant wants to make to their permit, how you can find out more and how you can send your comments to us.

Please use the reference number below when making comments.

- Permit Number: EPR/HP3228XT/V005
- Regulated facility type: Water Discharge Activity from a Fish Recovery and Return System
- Regulated facility location: Hinkley Point C Power Station, Hinkley Point, Near Bridgwater, Somerset, TA5 1UD
- Receiving environment: Bristol Channel
- Effluent type: Trade effluent consisting of returned abstracted seawater and impinged biota
- Volume: Maximum rate of discharge 1260 litres per second

### What does the applicant want to do?

The applicant wants to vary this operational Water Discharge Activity (WDA) permit, to remove conditions that relate to an Acoustic Fish Deterrent (AFD) and add a waste stream for discharge from the Fish Recovery and Return system (FRR).

### What is the permit currently for?

The original WDA permit application (submitted in 2011) included three mitigation measures in the design of the cooling water system: an Acoustic Fish Deterrent, Low Velocity Side Intakes and a Fish Recovery and Return system. The existing permit, issued in 2013, allows the cooling water system to operate as described in the application. Conditions require the applicant to submit reports to the Environment Agency describing how their proposed AFD will operate and to demonstrate that it will be optimised to minimise impacts on fish. These conditions are now requested for removal as part of this variation application.

### Was there a previous permit variation application?

A similar application was made in 2019, however this was deemed to be refused by the applicant in 2020, before our assessment had concluded. This was then appealed by the applicant in 2020, which the Secretary of State dismissed in 2022. The applicant had indicated they would challenge this decision by Secretary of State through

Judicial Review. However, the applicant has now made this new application to vary the permit in light of the approach we have recently taken at Sizewell C, the draft of which was consulted on through the summer of 2022.

We recognise that the duplication of a similar requirement in the Development Consent Order (DCO) regarding AFD optimisation has led to a potential overlap of regulation across planning and permitting regimes. In consultation with Natural England and the Marine Management Organisation we have concluded that the most appropriate mechanism for regulating the cooling water intake sits with the DCO regime and within the DCO. This brings our approach in line with our approach to Sizewell C's WDA permit application.

### How will this application be assessed?

When considering the revised application, we will assess the impact of removing the requirement for an AFD on aspects relating to the potential for water pollution and/or effects on habitat and species directly affected by the discharge from the Fish Recovery and Return outfall.

We will not be reconsidering the potential impacts from the abstraction of seawater and biota from the Bristol Channel from the operation of the power station without an AFD. That consideration sits within the DCO regime and relevant Marine Licence.

### What does this mean for the site?

If the variation is granted, the permit will not require the applicant to submit reports to the Environment Agency describing how their proposed AFD will operate or demonstrate that it will be optimised. This does not remove the need to install or operate the power station with an AFD, as these requirements are still included within the DCO and Marine Licence. NNB Generation Company (HPC) Limited will need to apply to the Planning Inspectorate and Marine Management Organisation to remove such conditions within those consents.

If the variation is granted, the permit will formally allow the discharge of seawater back to the Bristol Channel including any containing impinged biota. This discharge will then need to be conducted in line with any conditions we stipulate within the permit.

### Why are we consulting?

We are running a public consultation because Hinkley Point C is a major infrastructure project, important at the local, national and international scales. We understand that changes at the site are likely to be of significant public interest. We make decisions based on evidence and involve stakeholders, consultees and the public in order to improve the transparency of our decision-making.

We welcome feedback from everyone who has a view on the application, regardless of their age, sex, disability, marriage and civil partnership status, pregnancy or maternity status, race, religion or belief or their sexual orientation.

### What are we consulting on?

The applicant has submitted a number of reports alongside its application. Many of these were submitted to support the previous, 2019 variation application, which can still be accessed via this link: https://consult.environment-agency.gov.uk/psc/ta5-1ud-nnb-generation-company-hpc-limited-2/

We need to consider all of these fully and independently before we can make any decision on whether the company's proposals are acceptable or not. However, some of the reports contain aspects wider than the WDAs that our permit determination needs to consider, for example the potential impact from the abstraction of the seawater. The WDA permit does not regulate the abstraction, only the discharges from the site. Therefore, our assessment and this consultation will not consider these aspects of the reports.

The reports submitted by the company include:

- Hinkley Point C Operational Water Discharge Activity Environmental Permit Variation Application: Non-technical summary (Ref: 101067444)

- Hinkley Point C Cooling Water Infrastructure Fish Protection Measures: Report to discharge DCO requirement CW1 and Marine Licence condition 5.2.31 (ref: 100186617)
- TR479 – Particle Tracking Study of impinged sprat from the proposed Hinkley Point C Fish Recovery and Return (ref: 100805628)
- TR515 - Hinkley Point C water quality effects of the Fish Recovery and Return system (ref: 100805626)
- SPP105 – Predicted performance of the HPC LVSE intake heads compared with the HPB intake (ref: 100889387)
- SPP112 - Hinkley Point C impingement predictions corrected for Hinkley Point B raising factors and cooling water flow rates (and supporting raw data files) (ref: 100874130)
- TR456 – Revised predictions of impingement effects at Hinkley Point C – 2018 (ref: 100805583)

The applicant also submitted a report titled, Updated report to inform the Habitats Regulations Assessment (ref: 100161830). This report was submitted with the previous 2019 variation application and does not contain any aspects relevant to the WDA from the FRR system that is to be assessed. It is therefore not being consulted on. However, as part of our determination we will complete our own Habitats Regulation Assessment.

### How can you find out more about the application?

The company has submitted a large number of supporting documents and reports. You can view all of these online via this consultation portal.

Alternatively, you can view hard copies at the following locations:

- Hinkley Point Visitor Centre, Cannington Court, Church St, Cannington, Bridgwater, TA5 2HA
- Public Register, Environment Agency, Rivers House, East Quay, Bridgwater, TA6 4YS.

You can look at our register 9.30am-4.30pm, Monday to Friday. Please phone the National Customer Contact Centre on 03708 506 506 to arrange an appointment. You may get a copy of documents on the register. We may charge to cover copying costs.

### How can I get further information?

Please address any questions about this permit application to psc-waterquality@environment-agency.gov.uk

For general information about our permitting process please see www.gov.uk/topic/environmental-management/environmental-permits

For further information about our role in regulating Hinkley Point please see https://www.gov.uk/government/collections/hinkley-point

### What the response will be used for:

We will take your consultation responses into consideration as part of our determination of the permit. If we decide to grant the permit we will explain how we made our decision and how we have addressed the concerns that were raised.

We will only issue a permit if we believe that harm to the environment, people and wildlife will be minimised and that the operator has the ability to meet the conditions of the permit. Providing a business can prove that the proposed activities meets all the legal requirements, including environmental, technological and health requirements, then we

### How to Respond:

If you would like to comment online, please use the online consultation tool in Citizen Space.

If you would like to send your response by post, please send to:

Environment Agency
Permitting and Support Centre
Water Quality Team
Quadrant 2
99 Parkway Avenue
Sheffield
S9 4WF

are legally obliged to issue a permit, even if some people do not approve of the decision.
If you'd prefer to submit your response by email, please send to:
psc-waterquality@environment-agency.gov.uk

**All comments need to be submitted by 02 March 2023.**

### How we will use your information:

We will look to make comments received publicly available at our Environment Agency public facing office.

All comments which are made publicly available will exclude email addresses and telephone numbers. Any comments where confidentiality has been claimed will not appear on the public register.

In accordance with the Freedom of Information Act 2000, we may be required to publish your response to this consultation, but will not include any personal information. If you have requested your response to be kept confidential, we may still be required to provide a summary of it.

### Consultation Principles:

We are running this consultation in accordance with the criteria set out in the government's Consultation Principles.

If you have any queries or complaints about the way this consultation has been carried out, please contact:

Environment Agency
Permitting and Support Centre
Water Quality Team
Quadrant 2
99 Parkway Avenue
Sheffield
S9 4WF

Email: psc-waterquality@environment-agency.gov.uk

## Cefndir yr ymgynghoriad

# TA5 1UD, NNB Generation Company (HPC) Limited: ymgynghoriad ar drwydded amgylcheddol

**Nod yr ymgynghoriad hwn yw gofyn a oes gennych unrhyw sylwadau sy'n berthnasol i'r cais yn ymwneud â thrwydded.**

Rydym eisiau gwneud y penderfyniad gorau wrth drwyddedu. Mae gwrando ar farn pobl eraill yn ein helpu ni i roi ystyriaeth i bryderon, neu ffactorau amgylcheddol lleol, na fyddem o bosib yn ymwybodol ohonynt fel arall.

Rydym wedi cael cais i amrywio trwydded gan NNB Generation Company (HPC) Limited. Rydym yn gofyn am sylwadau ar y cais hwn. Bydd y nodyn briffio hwn yn dweud mwy wrthych am y newidiadau y mae'r ymgeisydd yn dymuno eu gwneud i'w trwydded, sut i gael mwy o wybodaeth a sut y gallwch anfon eich sylwadau atom ni.

Defnyddiwch y cyfeirnod isod wrth wneud sylwadau.

- Rhif Trwydded: EPR/HP3228XT/V005
- Math o gyfleuster a reoleiddir: Gweithgarwch Gollwng i Ddŵr o System Casglu a Dychwelyd Pysgod.
- Lleoliad y cyfleuster a reoleiddir: Gorsaf Bŵer Hinkley Point C, Hinkley Point, Ger Bridgwater, Gwlad yr Haf, TA5 1UD
- Amgylchedd derbyn: Môr Hafren
- Math o elifyn: Elifion masnach yn cynnwys dŵr wedi'i ddychwelyd ar ôl ei dynnu a biota yr effeithiwyd arno.
- Cyfaint: Cyfradd gollwng uchaf o 1260 litr yr eiliad.

### Beth mae'r ymgeisydd eisiau ei wneud?

Mae'r ymgeisydd eisiau amrywio'r drwydded Gweithgarwch Gollwng i Ddŵr (WDA) hon sydd ar waith, i ddileu amodau sy'n ymwneud â Dyfais Atal Pysgod yn Acwstig (AFD) ac ychwanegu ffrwd wastraff ar gyfer gollyngiadau o'r system Casglu a Dychwelyd Pysgod (FRR).

### Beth mae'r drwydded yn ei gynnwys ar hyn o bryd?

Roedd y cais gwreiddiol am WDA (a gyflwynwyd yn 2011) yn cynnwys tri mesur lliniaru yn nyluniad y system dŵr oeri: Dyfais Atal Pysgod yn Acwstig, Mewnlifau Ochrol Cyflymder Isel a system Casglu a Dychwelyd Pysgod. Mae'r drwydded gyfredol, a gyhoeddwyd yn 2013, yn caniatáu i'r system dŵr oeri weithredu yn ôl y disgrifiad yn y cais. Mae'n cynnwys amodau sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i'r ymgeisydd gyflwyno adroddiadau i Asiantaeth yr Amgylchedd yn disgrifio sut y bydd eu AFD arfaethedig yn gweithredu a dangos y bydd yn cael ei optimeiddio i leihau cymaint â phosib ar yr effeithiau ar bysgod. Ceir cais i ddileu'r amodau hyn fel rhan o'r cais hwn i amrywio.

### A gafwyd cais blaenorol i amrywio'r drwydded?

Cyflwynwyd cais tebyg yn 2019. Fodd bynnag, tybiodd yr ymgeisydd fod hwn wedi'i wrthod yn 2020, cyn i'n hasesiad gael ei gwblhau. Yn 2020, cyflwynodd yr ymgeisydd apêl yn erbyn hyn, a wrthodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn 2022. Roedd yr ymgeisydd wedi datgan y byddai'n herio'r penderfyniad hwn gan yr Ysgrifennydd

Gwladol drwy Adolygiad Barnwrol. Fodd bynnag, mae'r ymgeisydd wedi cyflwyno'r cais newydd hwn i amrywio'r drwydded yn sgil y dull a ddefnyddiwyd gennym yn ddiweddar yn Sizewell C, yr ymgynghorwyd ar ddrafft ohono yn ystod haf 2022.

Rydym yn cydnabod bod dyblygiad o ofyniad tebyg yn y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu (DCO) ynghylch optimeiddio AFD wedi arwain at orgyffwrdd posib o ran rheoliadau mewn cyfundrefnau cynllunio a thrwyddedu. Mewn ymgynghoriad â Natural England a'r Sefydliad Rheoli Morol, rydym wedi dod i'r casgliad fod y mecanwaith mwyaf priodol ar gyfer rheoleiddio'r mewnlif dŵr oeri yn gorwedd o fewn cyfundrefn y DCO ac o fewn y DCO. Mae hyn yn sicrhau bod ein dull gweithredu yn gyson â'r dull a ddefnyddiwyd gennym ar gyfer y cais yn ymwneud â thrwydded WDA Sizewell C.

## Sut fydd y cais hwn yn cael ei asesu?

Wrth ystyried y cais diwygiedig, byddwn yn ystyried effaith dileu'r gofyniad am AFD ar agweddau'n ymwneud â'r posibilrwydd o lygredd dŵr ac/neu effeithiau ar gynefinoedd a rhywogaethau y mae'r gollyngiadau o ollyngfa'r system Casglu a Dychwelyd Pysgod yn effeithio'n uniongyrchol arnynt.

Ni fyddwn yn ailystyried effeithiau posib tynnu dŵr môr a biota o Fôr Hafren wrth i'r orsaf bŵer weithredu heb AFD. Ystyriaeth ar gyfer cyfundrefn y DCO a'r Drwydded Forol berthnasol yw honno.

## Beth mae hyn yn ei olygu ar gyfer y safle?

Os bydd yr amrywiad yn cael ei ganiatáu, ni fydd y drwydded yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r ymgeisydd gyflwyno adroddiadau i Asiantaeth yr Amgylchedd yn disgrifio sut y bydd eu AFD arfaethedig yn gweithredu na dangos y bydd yn cael ei optimeiddio. Nid yw hyn yn dileu'r angen i osod AFD neu weithredu'r orsaf bŵer gydag AFD, gan fod y gofynion hyn yn dal i fod wedi'u cynnwys yn y DCO ac yn y Drwydded Forol. Bydd angen i NNB Generation Company (HPC) Limited gyflwyno cais i'r Arolygiaeth Gynllunio a'r Sefydliad Rheoli Morol er mwyn dileu amodau o'r fath o'r cydsyniadau hynny.

Os bydd yr amrywiad yn cael ei ganiatáu, bydd y drwydded yn rhoi caniatâd ffurfiol i ollwng dŵr môr yn ôl i Fôr Hafren. Mae hyn yn cynnwys unrhyw ddŵr môr sy'n cynnwys biota yr effeithiwyd arno. Bydd angen i'r gollwng hwn ddigwydd yn unol ag unrhyw amodau y byddwn yn eu gosod yn y drwydded.

## Pam ydym ni'n ymgynghori?

Rydym yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus oherwydd bod Hinkley Point C yn brosiect seilwaith sylweddol, sy'n bwysig ar raddfa leol, genedlaethol a rhyngwladol. Deallwn y gallai newidiadau ar y safle fod o ddiddordeb sylweddol i'r cyhoedd. Gwnawn benderfyniadau ar sail tystiolaeth ac wrth gynnwys rhanddeiliaid, ymgyngoreion a'r cyhoedd er mwyn gwella tryloywder ein penderfyniadau.

Rydym yn croesawu adborth gan bawb sydd â barn ar y cais, heb ystyried oed, rhyw, anabledd, statws priodasol a phartneriaeth sifil, statws beichiogrwydd neu famolaeth, hil, crefydd neu gred, neu gyfeiriadedd rhywiol.

## Ar beth ydym ni'n ymgynghori?

Mae'r ymgeisydd wedi cyflwyno sawl adroddiad ochr yn ochr â'i gais. Cyflwynwyd nifer fawr o'r rhain i gefnogi'r cais blaenorol i amrywio, sef cais 2019.Mae'n dal yn bosib gweld y rhain drwy glicio ar y ddolen hon: https://consult.environment-agency.gov.uk/psc/ta5-1ud-nnb-generation-company-hpc-limited-2/

Mae angen i ni ystyried pob un o'r rhain yn llawn ac yn annibynnol cyn y gallwn benderfynu a yw cynigion y cwmni yn dderbyniol ai peidio. Fodd bynnag, mae rhai o'r adroddiadau'n cynnwys agweddau ehangach na'r WDAs y mae angen eu hystyried fel rhan o'n penderfyniad ynghylch y drwydded. Er enghraifft, effaith bosib tynnu dŵr môr. Nid yw'r drwydded WDA yn rheoleiddio'r tynnu dŵr, dim ond y gollyngiadau o'r safle. Felly, ni fydd ein hasesiad na'r ymgynghoriad hwn yn ystyried yr agweddau hyn ar yr adroddiadau.

Ymhlith yr adroddiadau a gyflwynwyd gan y cwmni y mae:

- Hinkley Point C Operational Water Discharge Activity Environmental Permit Variation Application: Non-technical summary (Ref: 101067444)

- Hinkley Point C Cooling Water Infrastructure Fish Protection Measures: Report to discharge DCO requirement CW1 and Marine Licence condition 5.2.31 (ref: 100186617)
- TR479 – Particle Tracking Study of impinged sprat from the proposed Hinkley Point C Fish Recovery and Return (ref: 100805628)

- TR515 - Hinkley Point C water quality effects of the Fish Recovery and Return system (ref: 100805626)

- SPP105 – Predicted performance of the HPC LVSE intake heads compared with the HPB intake (ref: 100889387)

- SPP112 - Hinkley Point C impingement predictions corrected for Hinkley Point B raising factors and cooling water flow rates (and supporting raw data files) (ref: 100874130)

- TR456 – Revised predictions of impingement effects at Hinkley Point C – 2018 (ref: 100805583)

Yn ogystal, cyflwynodd yr ymgeisydd adroddiad yn dwyn y teitl, 'Updated report to inform the Habitats Regulations Assessment (ref: 100161830)'. Cyflwynwyd yr adroddiad hwn gyda'r cais blaenorol i amrywio yn 2019 ac nid yw'n cynnwys unrhyw agweddau sy'n berthnasol i'r Gweithgarwch Gollwng i Ddŵr o'r system Casglu a Dychwelyd Pysgod y mae angen ei asesu. Oherwydd hynny, nid ydym yn ymgynghori ar hwnnw. Fodd bynnag, wrth wneud penderfyniad byddwn yn cynnal ein Hasesiad Rheoleiddio Cynefinoedd ein hunain.

### Sut allwch chi gael rhagor o wybodaeth am y cais?

Mae'r cwmni wedi cyflwyno nifer fawr o ddogfennau ac adroddiadau ategol. Gallwch weld y rhain i gyd ar-lein drwy'r porth ymgynghori hwn.

Fel arall, gallwch weld copïau caled yn y lleoliadau a ganlyn:

- Canolfan Ymwelwyr Hinkley Point, Cannington Court, Church St, Cannington, Bridgwater, TA5 2HA

- Y Gofrestr Gyhoeddus, Asiantaeth yr Amgylchedd, Rivers House, East Quay, Bridgwater, TA6 4YS.

Gallwch ddod i edrych ar ein cofrestr rhwng 9.30am a 4.30pm, dydd Llun i ddydd Gwener. Ffoniwch y Ganolfan Gyswllt Genedlaethol i Gwsmeriaid ar 03708 506 506 i drefnu apwyntiad. Mae'n bosib y cewch gopi o ddogfennau sydd ar y gofrestr. Efallai y byddwn yn codi tâl i dalu am gostau copïo.

### Sut allaf i gael gwybodaeth bellach?

Cyfeiriwch unrhyw gwestiynau ynghylch y cais hwn am drwydded at psc-waterquality@environment-agency.gov.uk

Am wybodaeth gyffredinol ynghylch ein proses drwyddedu, gweler www.gov.uk/topic/environmental-management/environmental-permits

Am wybodaeth bellach ynghylch ein rôl wrth reoleiddio Hinkley Point, gweler https://www.gov.uk/government/collections/hinkley-point

### Ar gyfer beth fydd yr ymateb yn cael ei ddefnyddio:

Byddwn yn ystyried eich ymatebion i'r ymgynghoriad wrth ddod i benderfyniad ar y drwydded. Os byddwn yn penderfynu caniatáu'r drwydded, byddwn yn esbonio sut y gwnaethom ein penderfyniad a sut rydym wedi mynd i'r afael â'r pryderon a godwyd.

Ni fyddwn yn rhoi trwydded oni bai ein bod yn credu y bydd niwed i'r amgylchedd, pobl a bywyd gwyllt yn cael ei leihau cymaint â phosib a bod gan y gweithredwr y gallu i fodloni amodau'r drwydded. Cyhyd â bod busnes yn gallu profi bod y gweithgareddau arfaethedig yn bodloni'r holl ofynion cyfreithiol, gan gynnwys gofynion amgylcheddol, technolegol ac iechyd, yna rydym dan rwymedigaeth gyfreithiol i roi trwydded, hyd yn oed os nad yw rhai pobl yn cymeradwyo'r penderfyniad.

### Sut i ymateb:

Os ydych yn dymuno cyflwyno sylwadau ar-lein, defnyddiwch yr offeryn ymgynghori ar-lein yn Citizen Space.

Os ydych yn dymuno anfon eich ymateb drwy'r post, dylech ei anfon i'r cyfeiriad canlynol:

Asiantaeth yr Amgylchedd / Environment Agency
Permitting and Support Centre
Water Quality Team
Quadrant 2
99 Parkway Avenue
Sheffield
S9 4WF

Os yw'n well gennych gyflwyno'ch ymateb drwy e-bost, dylech ei anfon i'r cyfeiriad canlynol:
psc-waterquality@environment-agency.gov.uk

**Bydd angen cyflwyno unrhyw sylwadau erbyn 02 Mawrth 2023.**

### Sut y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth:

Ein bwriad yw trefnu bod y sylwadau a gawn ar gael i'r cyhoedd yn swyddfa gyhoeddus Asiantaeth yr Amgylchedd.

Ni fydd unrhyw sylwadau a fydd ar gael i'r cyhoedd yn cynnwys cyfeiriadau e-bost na rhifau ffôn. Ni fydd unrhyw sylwadau lle mae cyfrinachedd wedi'i hawlio yn ymddangos ar y gofrestr gyhoeddus.

Yn unol â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, mae'n bosib y bydd gofyn i ni gyhoeddi eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn, ond ni fyddwn yn cynnwys unrhyw wybodaeth bersonol. Os ydych wedi gofyn i'ch ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, mae'n bosibl y bydd gofyn i ni gyflwyno crynodeb ohono.

### Egwyddorion Ymgynghori:

Rydym yn cynnal yr ymgynghoriad hwn yn unol â'r meini prawf a amlinellir yn Egwyddorion Ymgynghori y llywodraeth.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu gwynion ynghylch y ffordd y cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwn, cysylltwch ag:

Asiantaeth yr Amgylchedd / Environment Agency
Permitting and Support Centre
Water Quality Team
Quadrant 2
99 Parkway Avenue
Sheffield
S9 4WF.

E-bost: psc-waterquality@environment-agency.gov.uk